

**Arolygiad o Bractis
Deintyddol Cyffredinol
(Lle rhoddwyd rhybudd)**

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Cwm Taf,

**Deintyddfa Isfryn
(Wesley, Blinman ac
Aelodau Cysylltiol)**

4 Chwefror 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr am fod ieithoedd a fformatau eraill yn cael eu cynhyrchu ar gais i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	2
3.	Cyd-destun.....	4
4.	Crynodeb	5
5.	Canfyddiadau	6
	Profiad y Claf.....	6
	Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru	8
	Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	11
	Ansawdd yr Amgylchedd.....	14
6.	Y Camau Nesaf.....	16
	Atodiad A.....	17

1. Cyflwyniad

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ddeintyddfa Isfryn (Wesley, Blinman ac Aelodau Cysylltiol) yn 56 Y Stryd Fawr, Treorci, CF42 6NR yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf ar 4 Chwefror 2015.

Ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol gennym yn ystod yr arolygiad:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o Bractisau Deintyddol Cyffredinol yn ceisio canfod pa mor dda mae practisau'n bodloni'r safonau yn *Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*¹.

Adolygwyd dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gennym yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle

¹Daeth Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru i rym ar 1 Ebrill 2010. Mae'r fframwaith safonau yn nodi gofynion yr hyn a ddisgwylir gan bob gwasanaeth iechyd ym mhob lleoliad yng Nghymru. www.weds.wales.nhs.uk/opendoc/214438

- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu o unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredir safonau yn y practis yr ymwelwyd ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

3. Cyd-destun

Mae Deintyddfa Isfryn (Wesley, Blinman ac Aelodau Cysylltiol) yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Rhondda Cynon Taf. Mae'r practis yn ffurfio rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adnabyddir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf. Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys pedwar deintydd, un hylenydd, tair nyrs, dau dderbynnydd a rheolwr y practis.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau.

Mae AGIC yn deall bod Deintyddfa Isfryn yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG. O ystyried hyn, bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis a gofrestrir gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn destun darpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 yn ogystal â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2011.

4. Crynodeb

Edrychodd AGIC ar sut mae Deintyddfa Isfryn yn bodloni'r safonau gofal yn y ddogfen *Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*.

Dangosodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw a'r rheini a oedd wedi cwblhau ein holiaduron eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir gan dîm y practis. Dywedodd y cleifion wrthym hefyd eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth ac nad oeddent wedi profi unrhyw oediad sylweddol cyn cael eu gweld gan y deintydd.

Ar y cyfan, gwelsom fod y practis yn cael ei redeg â'r bwriad o fodloni'r safonau. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod angen gwneud gwelliannau ynghylch hyfforddiant y staff sy'n defnyddio offer pelydr-x, y broses nodi dyddiadau dod i ben offerynnau deintyddol (ar ôl iddynt gael eu glanhau a'u sterileiddio), a gwirio offer cywasgydd, cyffuriau ac offer brys. Gwnaethom hefyd nodi bod angen gwella rhai meysydd ynghylch cadw cofnodion deintyddol.

Roedd gan y practis reolwr sy'n gweithio'n agos gyda phartneriaid y practis. Er bod ystod o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith, roedd llawer ohonynt yn fyr ac nid oeddent yn cynnwys manylion cyswllt sefydliadau ac asiantaethau allanol perthnasol.

Gwelsom fod lleoliad y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, y tu mewn a'r tu allan. Roedd trefniadau addas ar waith er mwyn diogelu preifatrwydd y cleifion sy'n derbyn triniaeth.

Gwnaethom argymhell bod perchenogion y practis yn gwneud trefniadau i arddangos manylion prisiau sy'n ymwneud â thriniaeth ddeintyddol breifat.

5. Canfyddiadau

Profiad y Claf

Dangosodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw a'r rheini a oedd wedi cwblhau ein holiaduron eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir gan dîm y practis. Dywedodd y cleifion wrthym hefyd eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth ac nad oeddent wedi profi unrhyw oediad sylweddol cyn cael eu gweld gan ddeintydd.

Roedd tîm y practis yn gyfeillgar ac yn groesawgar, a gwelsom eu bod yn gwrtais ac yn foesgar i gleifion.

Roeddem yn gallu siarad â nifer o'r cleifion a oedd yn mynychu'r ddeintyddfa ar ddiwrnod ein hymweliadau. Heb eithriad, dywedodd yr holl gleifion eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir iddynt gan staff y practis.

Cyn ein hymweliad arolygu, gwnaethom hefyd roi holiaduron AGIC i berchenogion y practis i'w dosbarthu i'r cleifion sy'n mynychu'r practis. Gwahoddwyd y cleifion i roi sylwadau am eu profiad yn y practis. Dychwelwyd cyfanswm o 22 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd yr holl gleifion a roddodd sylwadau'n dangos eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth yr oeddent wedi'i dderbyn gan y practis. Hefyd, roeddent yn teimlo bod croeso iddynt gan y staff yn y practis a'u bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth.

Roedd y sylwadau'n cynnwys:

"Ydw – bodlon iawn [ar y gwasanaeth]."

"Wastad yn groesawgar iawn."

"Ydw.Os oes angen i mi gael triniaeth, mae fy neintydd yn esbonio'r opsiynau a pham rydw i ei hangen."

Roedd blwch awgrymiadau ar gael yn y dderbynfa fel modd o roi'r cyfle i gleifion bostio'u sylwadau a'u hawgrymiadau am ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad oedd hwn yn cael ei ddefnyddio'n aml iawn. Yn hytrach, pe bai gan y cleifion bryderon penodol, dywedwyd wrthym y byddai tîm y practis yn ceisio mynd i'r afael â'r rhain yn y fan a'r lle.

Roedd system apwyntiad hyblyg ar waith, a gwelsom fod y cleifion yn gallu trefnu apwyntiad ymlaen llaw yn ogystal ag ar sail argyfwng. Roedd hyn yn

golygu y gallai'r bobl fod yn hyderus, pe baent yn teimlo poen ddeintyddol, bod system ar waith i sicrhau eu bod yn cael apwyntiad yn fuan.

Ar y cyfan, dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw ac a oedd wedi cwblhau holiaduron AGIC nad oeddent wedi profi unrhyw oediad wrth aros i gael eu gweld. Dywedodd y staff fod proses ar waith er mwyn rhoi gwybod i gleifion os yw eu deintydd yn rhedeg yn hwyr.

Roedd sylwadau eraill yn yr holiaduron wedi'u cwblhau'n cynnwys:

"Rydw i wastad wedi gweld y deintydd o fewn 24 awr o gysylltu â'r ddeintyddfa."

"Hoffwn i'r practis weithredu sesiwn gyda'r hwyr, neu agor ar y penwythnos yn achlysurol. Byddai hyn yn rhoi mwy o ddewis i'r rheini sy'n gweithio yn ystod yr wythnos."

"Gwasanaeth ardderchog"

"...mae'r tîm sy'n fy nhrin i wastad yn tawelu fy meddwl..."

Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru

Ar y cyfan, gwelsom fod y practis yn cael ei redeg â'r bwriad o fodloni'r safonau. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod angen gwneud gwelliannau ynghylch hyfforddiant y staff sy'n defnyddio offer pelydr-x, y broses nodi dyddiadau dod i ben offerynnau deintyddol (ar ôl iddynt gael eu glanhau a'u sterileiddio), a gwirio offer cywasgydd, cyffuriau ac offer brys. Gwnaethom hefyd nodi bod angen gwella rhai meysydd ynghylch cadw cofnodion deintyddol.

Ar y cyfan, gwelsom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio'r offer radiograffeg yn ddiogel. Roedd yr holl ddogfennaeth orfodol, gan gynnwys gwiriadau diogelwch, gwaith cynnal a phrofi ar gael mewn ffeiliau, ac yn gyfredol. Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion hyfforddi ar gyfer y staff a oedd yn gyfrifol am ddefnyddio offer ymbelydredd. Er inni weld bod staff wedi mynychu hyfforddiant perthnasol, roedd angen iddynt fynychu hyfforddiant wedi'i ddiweddarau yn unol â rheoliadau'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000. Yn ôl y rheoliadau hyn, mae angen i'r staff dderbyn hyfforddiant bob pum mlynedd.

Y gwelliant sydd ei angen

Dylai perchenogion y practis roi blaenoriaeth i wneud trefniadau addas ar gyfer pob aelod o staff perthnasol, nad ydynt wedi mynychu hyfforddiant ymbelydredd ìoneiddio yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf, i dderbyn hyfforddiant gloywi.

Roedd gan y staff fynediad at offer dadebru a chyffuriau brys ar gyfer argyfwng cleifion (cwympiad) yn y practis. Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod system ar waith i wirio, nodi a phrynu cyffuriau newydd â dyddiadau sydd wedi dod i ben, a gwirio offer brys yn rheolaidd. Fodd bynnag, gwnaethom argymhell bod system fwy ffurfiol yn cael ei gweithredu er mwyn i'r gwiriadau hyn gael eu cofnodi a hefyd eu cynnal bob wythnos fel yr hyn sy'n cael ei argymhell gan Gyngor Dadebru'r DU².

²Sefydlwyd Cyngor Dadebru'r DU i hyrwyddo canllawiau dadebru o ansawdd da, gwyddonol sy'n berthnasol i bawb, ac i gyfrannu at achub bywydau trwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil a chydweithrediad.

Y Gwelliant sydd ei Angen

Dylai perchenogion y practis weithredu a chynnal system i ddangos bod cyffuriau ac offer brys yn cael eu gwirio yn unol â chanllawiau cyfredol Cyngor Dadebru'r DU.

Gwelsom dystysgrifau mewn ffeiliau staff a oedd yn dangos eu bod wedi derbyn hyfforddiant am sut i ddelio ag argyfyngau meddygol, gan gynnwys sut i weinyddu dadebru cardio-pwlmonaidd. Roedd hyn y golygu bod y staff wedi cael eu dysgu am y gweithdrefnau cywir i ymdrin ag argyfwng cleifion.

Roedd contract ar waith ar gyfer gwaredu ar wastraff peryglus. Gwelsom fod gwastraff wedi cael ei ddioli a'i roi mewn bagiau/cynwysyddion o wahanol liwiau er mwyn dangos y dull cywir o gael gwared arno. Roedd y rhain wedi'u storio'n ddiogel tra eu bod yn aros i rywun eu casglu.

Gwnaethom ystyried y trefniadau ar gyfer dadheintio (glanhau a sterileiddio) yr offerynnau a ddefnyddir yn y practis, ac ar gyfer cydymffurfio â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (01-05).³

Ar y cyfan, gwelsom fod trefniadau priodol ar waith ar gyfer glanhau a sterileiddio offerynnau. Gwelsom fod yr offerynnau'n cael eu bagio'n briodol, ac yn cael eu stampio â'r dyddiad dadheintio, cyn iddynt gael eu storio. Fodd bynnag, gwnaethom argymhell bod y dyddiad dod i ben yn cael ei ddefnyddio fel yr hyn sy'n cael ei argymhell gan y Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Cytunodd rheolwr a pherchenogion y practis i weithredu hyn.

Rodd cofnodion gofynnol ar gyfer y peiriant (sterileiddio) awtoclaf wedi cael eu cynnal. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad yw gwiriadau dyddiol yn cael eu cynnal o ran offer cywasgu sy'n cael ei ddefnyddio yn y practis. Gwnaethom drafod bod angen gwirio'r offer hwn yn rheolaidd a bod angen gweithredu system i ddangos bod gwiriadau priodol yn cael eu cynnal.

³ Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (01-05) yn rhoi canllawiau ar ddadheintio i weithwyr proffesiynol mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

Y Gwelliant sydd ei Angen

Dylai perchenogion y practis wneud trefniadau addas i sicrhau eu bod yn gallu dangos bod gwiriadau priodol yn cael eu cynnal ynghylch offer cywasgu.

Gwelsom fod yr offer sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer glanhau a sterileiddio'r offerynnau mewn cyflwr da.

Gwelsom dystiolaeth bod archwiliadau rheoli heintiau ar hap wedi cael eu cynnal. Roedd digon o gyfleusterau golchi dwylo ac offer diogelu untro er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio.

Gwnaethom edrych ar gyfleusterau clinigol pob un o'r ystafelloedd triniaeth yn y practis. Gwelsom fod y rhain yn cynnwys yr offer perthnasol er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion a'r staff. Roedd trefniadau addas ar waith er mwyn diogelu preifatrwydd cleifion sy'n derbyn triniaeth.

Gwnaethom edrych ar hapsampl o 20 o gofnodion deintyddol y cleifion. Roedd y sampl hon yn cynnwys cofnodion ar gyfer pob deintydd a oedd yn gweithio yn y practis. Gwelsom rywfaint o amrywiaeth yn y ffordd mae'r deintyddion yn cadw cofnodion ond ar y cyfan roedd cofnodion manwl wedi cael eu cynnal. Gwnaethom nodi bod angen gwneud rhai gwelliannau ynghylch cofnodi cyngor am roi'r gorau i ysmegu a sgrinio canser y geg. Gwelsom hefyd nad oedd dogfennaeth hanes meddygol bob amser yn cael ei chydlofnodi gan y deintyddion na'u sganio i'w rhoi ar y cofnod electronig.

Y Gwelliant sydd ei Angen

Rhaid i berchenogion y practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod manylion am gyngor am roi'r gorau i ysmegu a sgrinio canser y geg yn cael eu cofnodi'n briodol yng nghofnodion deintyddol y cleifion.

Y Gwelliant sydd ei Angen

Dylai perchenogion y practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod hanes meddygol yn cael ei gydlofnodi gan y deintydd.

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Roedd gan y practis reolwr a oedd yn gweithio'n agos gyda pherchenogion y practis. Er bod ystod o bolisiau a gweithdrefnau perthnasol ar waith, roedd rhai ohonynt yn gryno ac nid oeddent yn cynnwys manylion cyswllt sefydliadau ac asiantaethau allanol perthnasol.

Roedd rheolwr y practis yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd, ac roedd yn gweithio'n agos gyda pherchenogion y practis. Roedd tîm y practis i'w gweld yn gweithio'n dda gyda'i gilydd, ac roedd ganddynt ddealltwriaeth dda o'u gwahanol swyddogaethau a chyfrifoldebau.

Dyweddodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu swyddi, a'u bod yn gallu lleisio unrhyw bryderon sydd ganddynt yn ymwneud â'r gwaith gydag uwch staff. Dywedodd y staff wrthym hefyd fod cyfarfodydd practis yn cael eu cynnal bob mis, ac roeddent yn trafod testunau sy'n ymwneud â'u gwaith. Gwelsom gofnodion ysgrifenedig y cyfarfodydd a oedd yn cadarnhau hyn.

Dyweddodd y staff wrthym eu bod yn gallu derbyn hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rôl. Gwnaethom edrych ar sampl o ffeiliau datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer y staff a gweld bod staff yn cofnodi tystiolaeth o'r hyfforddiant maent wedi'i fynychu er mwyn bodloni gofynion datblygiad proffesiynol parhaus. Roedd hyn yn golygu bod y cleifion yn cael eu trin gan staff â'r sgiliau priodol a hyfforddiant cyfredol.

Mae'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis yn darparu gwasanaethau deintyddol y GIG a gwasanaethau deintyddol preifat. Roedd gan bob aelod o staff y mae'n ofynnol iddynt gael eu cofrestru ag AGIC dystysgrif gofrestru gyfredol (a gyflwynwyd gan AGIC) ac roeddent yn cael eu harddangos yn unol â'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.

Roedd gan y practis amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau perthnasol ar waith â'r bwriad o sicrhau bod gofal a thriniaeth cleifion yn cael eu darparu'n ddiogel. Fodd bynnag, roedd llawer ohonynt ar ffurf cyngor cyffredinol ac roedd angen iddynt fod yn fanylach ac yn fwy penodol i'r trefniadau gweithio sydd ar waith yn y practis.

Er enghraifft, nid oedd polisiau a gweithdrefnau cysylltiedig ar gyfer diogelu plant ac oedolion sy'n agored i newid yn cynnwys manylion cyswllt perthnasol y swyddogion diogelu lleol. Roedd hyn yn golygu ei bod yn bosibl na fyddai'r staff yn cael eu cyfeirio at y person mwyaf priodol i gysylltu ag ef pe baent yn amau achos o gam-drin. Enghraifft arall oedd polisi diogelu data'r practis. Roedd hwn yn ddatganiad cryno ac nid oedd yn cynnwys manylion am y trefniadau penodol

sydd ar waith am sut mae tîm y practis yn cydymffurfio ag egwyddorion y Ddeddf Diogelu Data.

Roedd gan y practis bolisi iechyd a diogelwch. Fodd bynnag, nid oedd asesiadau risg y staff cysylltiedig wedi cael eu cwblhau ynghylch tasgau symud a chario penodol ac offer sgrin arddangos.

Gwnaethom hysbysu rheolwr y practis a pherchenogion y practis a oedd yn bresennol ar adeg ein harolygiad o'n canfyddiadau er mwyn i drefniadau priodol gael eu gwneud i wella'r gwasanaeth.

Y Gwelliant sydd ei Angen

Dylai perchenogion y practis adolygu pob polisi a gweithdrefn ysgrifenedig yn y practis i sicrhau eu bod yn fanwl a'u bod yn adlewyrchu'r trefniadau yn y practis yn llawn. Lle bo'n angenrheidiol, mae'n rhaid iddynt gynnwys manylion cyswllt asiantaethau a chyrrff statudol lleol perthnasol, pe bai angen i'r staff gysylltu â nhw.

Y Gwelliant sydd ei Angen

Rhaid i berchenogion y practis sicrhau bod asesiadau risg perthnasol yn cael eu cwblhau a'u bod yn cymryd camau gweithredu priodol i leihau'r perygl o niwed i'r staff lle bo'n angenrheidiol.

Gwelsom gofnodion a oedd yn cadarnhau bod y staff wedi derbyn brechiadau yn erbyn *Hepatitis B*. Nid oedd yn hollol glir ym mhob achos a oedd gan y staff imiwnedd digonol ac mae'n rhaid iddynt gymryd camau priodol i sicrhau eu bod yn cael y brechiad fel ffordd o amddiffyn eu hunain a'r cleifion o'r perygl o groes-heintio â feirysau a gludir yn y gwaed.

Roedd dogfennaeth cynnal a chadw gyfredol ar gael ynghylch offer nwy a chyfarpar tân. Felly, gallai'r staff a'r cleifion fod yn sicr bod systemau ar waith i sicrhau bod offer yn cael ei archwilio'n rheolaidd, ac yn cael ei gynnal a'i gadw i sicrhau ei fod yn addas i'r diben.

Roedd y practis yn darparu triniaeth breifat a thriniaeth y GIG, ac roedd gweithdrefn ar waith er mwyn i'r cleifion leisio pryderon (cwynion). Er bod hyn yn cwrdd â'r trefniadau ynghylch gofal a thriniaeth breifat, nid oedd yn hollol gyson â threfniadau *Gweithio i Wella* ar gyfer ymdrin â phryderon (cwynion) am ofal a thriniaeth GIG Cymru. Gwnaethom argymhell bod y practis yn diwygio'r weithdrefn gwyno er mwyn iddi gwrdd â'r gofynion yn ôl trefniadau *Gweithio i Wella*.

Y Gwelliant sydd ei Angen

Rhaid i berchenogion y practis ddiwygio gweithdrefn gwyno'r practis er mwyn iddi fod yn gyson â'r amserlenni a'r broses a bennir gan drefniadau 'Gweithio i Wella'.

Roedd gwybodaeth i'r cleifion am sut i leisio pryder (cwyn) wedi'i harddangos yn yr ystafell aros. Fodd bynnag, dywedodd ychydig dan hanner o'r cleifion a oedd wedi cwblhau'r holiaduron (10) nad oeddent yn ymwybodol o'r weithdrefn y dylid ei dilyn. Dylai'r practis ymchwilio i sut y gellir gwella ymwybyddiaeth cleifion o'r weithdrefn hon.

Ansawdd yr Amgylchedd

Gwelsom fod lleoliad y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, y tu mewn a'r tu allan. Roedd trefniadau addas ar waith er mwyn diogelu preifatrwydd cleifion sy'n derbyn triniaeth.

Gwnaethom argymhell bod perchenogion y practis yn gwneud trefniadau i arddangos manylion prisiau sy'n ymwneud â thriniaeth ddeintyddol breifat.

Mae'r practis yn darparu gwasanaethau o adeilad yn nhref Treorci yng Nghwm Rhondda Fawr. Dywedwyd wrthym fod y lleoliad wedi darparu gwasanaethau deintyddol ers blynyddoedd lawer.

Nid oedd maes parcio penodedig yn y practis ond mae'n bosibl parcio ar hyd y brif heol sydd yn uniongyrchol y tu allan i'r practis neu yn y strydoedd ochr gerllaw. Roedd arwyddion clir a oedd yn arwain at y practis, yn ei gwneud yn hawdd dod o hyd iddo o'r brif heol. Roedd rhif ffôn brys ar gyfer y cleifion i gysylltu y tu allan i oriau agor y practis yn cael ei arddangos yn glir. Roedd hyn yn golygu bod modd i'r cleifion sy'n mynychu'r practis gael eu cyfeirio at rif, y gallent ei ffonio am gyngor am wasanaethau triniaeth ddeintyddol frys, pan fydd y practis ar gau. Roedd enwau a chymwysterau'r deintyddion a oedd yn gweithio yn y practis yn cael eu harddangos yn yr ystafell aros. Roedd hyn yn golygu bod y cleifion yn derbyn gwybodaeth sylfaenol am y deintyddion sy'n rhoi triniaeth iddynt. Mae'n bosibl bydd perchenogion y practis am wneud trefniadau er mwyn i'r wybodaeth hon gael ei harddangos a'i gweld o'r tu allan i'r practis fel ffordd ychwanegol o hysbysu'r cleifion.

Roedd mynediad i'r practis yn addas ar gyfer pobl sydd ag anawsterau symudedd oherwydd nad oedd angen iddynt fynd i fyny'r grisiau i gyrraedd y practis ac roedd ystafell aros a deintyddfa ar y llawr daear.

Roedd gan y practis dŷ bach ar gyfer y staff a'r cleifion. Roedd y tŷ bach ar y llawr cyntaf, sy'n ei wneud yn anaddas i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn neu'r cleifion sydd ag anawsterau symudedd sylweddol. Roedd y cyfleusterau toiled yn lân ac yn cynnwys cyfleusterau golchi dwylo addas i atal croes-heintio.

Roedd yr ystafelloedd aros ar y llawr daear a'r llawr cyntaf. Gwnaeth ein harsylwadau nodi bod maint yr ystafelloedd aros yn briodol o ystyried nifer yr ystafelloedd triniaeth a nifer y cleifion a oedd yn mynychu. Yn ystod taith o gwmpas y practis, gwelsom fod y mannau hyn yn lân ac yn daclus, a bod digon o olau, gwres ac awyr ffres. Roedd felly yn darparu mannau cyfforddus ar gyfer y cleifion wrth iddynt aros.

Roedd rhywfaint bach o ddeunydd hybu iechyd ar gael i'r cleifion ei ddarllen. Felly, mae'n bosibl y bydd perchenogion y practis am ddarparu mwy o wybodaeth fel bod y cleifion yn gallu gweld y wybodaeth yn hawdd am sut i ofalu am iechyd eu ceg eu hunain. Roedd gwybodaeth am y gwasanaethau a ddarperir gan y gwasanaeth yn ogystal â manylion am brisiau triniaeth y GIG hefyd yn cael eu harddangos. Roedd hyn yn golygu bod y cleifion sy'n ymweld â'r practis yn gallu gweld costau tebygol triniaeth y GIG. Roedd deintyddion y practis hefyd yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat a dylai trefniadau gael eu gwneud i arddangos y prisiau'n glir sy'n ymwneud â thriniaeth ddeintyddol breifat.

Y Gwelliant sydd ei Angen

Dylai perchenogion y practis wneud trefniadau addas i arddangos gwybodaeth i'r cleifion am brisiau sy'n ymwneud â thriniaeth ddeintyddol breifat a ddarperir yn y practis.

Roedd tair deintyddfa - dwy ar y llawr daear ac un ar lawr cyntaf yr adeilad. Gwnaethom edrych ar gyfleusterau clinigol pob un o'r rhain, ac roeddent yn cynnwys yr offer perthnasol er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion a'r staff. Roedd trefniadau addas ar waith er mwyn diogelu preifatrwydd cleifion sy'n derbyn triniaeth.

Roedd y lleoliad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda y tu allan ac roedd wedi'i addurno i safon uchel y tu mewn. Roedd mesurau diogelwch ar waith i atal mynediad i'r adeilad heb awdurdod. Roedd allanfeydd tân wedi'u nodi'n glir ar gyfer y cleifion a'r staff, ac roedd labeli cynnal a chadw yn dangos bod y diffoddwyr tân wedi cael eu gwirio'n ddiweddar.

6. Y Camau Nesaf

O ganlyniad i'r arolygiad hwn, mae angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella o ran cyflawni *Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*, rheolaeth ac arweinyddiaeth, ac ansawdd yr amgylchedd. Mae'r manylion hyn i'w gweld yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella ddatgan yn eglur pa bryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd ym Mhractis Deintyddol Isfryn yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC a bydd yn cael ei werthuso fel rhan o'r broses barhaus o arolygu deintyddol.

Atodiad A

Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwelliannau

Practis: Deintyddfa Isfryn

Dyddiad yr Arolygiad: 4 Chwefror 2015

Rhif y Dudalen	Y Gwelliant sydd ei Angen	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	Profiad y Claf			
	Ni nodwyd unrhyw feysydd ar gyfer gwella'r gwasanaeth yn y maes hwn.			
	Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru			
8	Dylai perchenogion y practis roi blaenoriaeth i wneud trefniadau addas ar gyfer pob aelod o staff perthnasol, nad ydynt wedi mynychu hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf, i dderbyn hyfforddiant gloywi.	Mae'r aelod o staff y mae ei hyfforddiant yn y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) sydd newydd ddod i ben eisoes wedi gwneud trefniadau i ddiweddarau ei ddatblygiad proffesiynol parhaus.	Gareth Blinman	Ebrill 2015
9	Dylai perchenogion y practis weithredu a chynnal system i ddangos bod cyffuriau a	Mae gwiriadau wythnosol bellach ar waith	Gareth Blinman	Wedi'i gwblhau

Rhif y Dudalen	Y Gwelliant sydd ei Angen	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	chyfarpar brys yn cael eu gwirio yn unol â chanllawiau cyfredol Cyngor Dadebru'r DU.			
10	Dylai perchenogion y practis wneud trefniadau addas i sicrhau eu bod yn gallu dangos bod gwiriadau priodol yn cael eu cynnal ynghylch offer cywasgu.	Mae trefniadau wedi cael eu gwneud eisoes gyda'n peiriannydd i roi gwasanaethau rheolaidd i ni ac mae taflen wirio cofnodi gwiriadau'n ddyddiol wrthi'n cael ei chwblhau.	Karl Wesley	Wedi'i gwblhau
10	Rhaid i berchenogion y practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod manylion am gyngor am roi'r gorau i ysmegu a sgrinio cancer y geg yn cael eu cofnodi'n briodol yng nghofnodion deintyddol y cleifion.	Mae cyfarfod rhwng y staff wedi cael ei gynnal eisoes i sicrhau bod nodiadau'n cael eu cofnodi'n ddigonol ynghylch rhoi'r gorau i ysmegu, sgrinio cancer y geg a'r broses o gydlofnodi hanes meddygol.	Karl Wesley	Wedi'i gwblhau
10	Dylai perchenogion y practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod hanes meddygol yn cael ei gydlofnodi gan y deintydd.	Gweler uchod		Wedi'i gwblhau
Rheolaeth ac Arweinyddiaeth				
12	Dylai perchenogion y practis adolygu pob polisi a gweithdrefn ysgrifenedig yn y practis i sicrhau eu bod yn fanwl ac yn adlewyrchu trefniadau yn y practis yn llawn. Lle bo'n angenrheidiol, rhaid iddynt gynnwys manylion cyswllt asiantaethau a chyrrff statudol lleol perthnasol, pe bai angen i'r staff gysylltu â nhw.	Mae angen diweddarau'r polisiâu ysgrifenedig i gynnwys y rhifau cyswllt priodol fel y trafodwyd.	Sarah Parry	Mehefin 2015

Rhif y Dudalen	Y Gwelliant sydd ei Angen	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
12	Rhaid i berchenogion y practis sicrhau bod asesiadau risg perthnasol yn cael eu cwblhau a'u bod yn cymryd camau gweithredu priodol i leihau'r perygl o niwed i'r staff lle bo'n angenrheidiol.	Rhaid cwblhau asesiadau risg codi a chario ac unedau arddangos gweladwy ar gyfer pob aelod o staff.	Sarah Parry	Mai 2015
13	Rhaid i berchenogion y practis ddiwygio gweithdrefn gwyno'r practis er mwyn iddi fod yn gyson â'r amserlenni a'r broses a bennwyd gan y trefniadau 'Gweithio i Wella'.	Mae amserau ymateb i bryderon wedi cael eu newid i adlewyrchu'r amserlen ofynnol ar gyfer pholisïau cwyno'r GIG a pholisïau cwyno preifat.	Sarah Parry	Ebrill 2015
Ansawdd yr Amgylchedd				
15	Dylai perchenogion y practis wneud trefniadau addas i arddangos gwybodaeth i'r cleifion am brisiau sy'n ymwneud â thriniaeth ddeintyddol breifat a ddarperir yn y practis.	Dylid arddangos prisiau'r gwasanaethau preifat yn gliriach er mwyn i'r cleifion eu gweld.	Sarah Parry	Wedi'i gwblhau

Cynrychiolydd y Practis:

Enw (llythrennau bras):Sarah Parry.....

Teitl:Rheolwr y Practis.....

Llofnod:Miss S K Parry.....

Dyddiad:5 Mawrth 2015